Gwybodaeth Gwarant a Manylion Yswiriant

1. Gwarantau Systemau: - Os ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod gwarant, daw'r offer cyfrifiadurol a restrir drosodd (? y peiriant (2)? yn ddiffygiol bydd Barry Bennett Cyf, ar ein cost ein hunan, yn trwsio'r offer a'u hadfer i'w cyflwr cyn dosbarthu, gan gynnwys, pan fydd angen, darparu darnau amnewid ac ail lwytho'r holl feddalwedd a brynwyd gyda'r offer a restrir drosodd.

2. Oriau Busnes: - Bydd Barry Bennett Cyf yn trefnu trwsio'r offer ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i'r ddau barti yn ystod oriau busnes (9am ? 5.30pm, Llun i Iau 9am ? 5pm Gwener). Rhaid i chi hysbysu Barry Bennett Ltd o'r diffyg . Bydd raid i chi siarad gyda pheiriannydd a fydd yn cymryd yr alwad ac a fydd yn penderfynu o'ch disgrifiad o'r broblem a yw'n cael ei gynnwys yn y cytundeb gwarant (gweler paragraff 5) ac yn trefnu ymweliad trwsio. Bydd angen bod ger yr offer er mwyn gallu disgrifio'r broblem yn gywir a bydd hefyd yn bosibl datrys unrhyw faterion (yn ôl ein disgresiwn) nad ydynt yn gynwysedig yn y cytundeb gwarant hwn ac y codir tâl amdanynt fel rheol (gweler paragraff 5).

3. Lle y Gwasanaeth: -Dim ond yn y cyfeiriad(au) a ddangosir drosodd y cynhelir y gwasanaeth ar yr offer heblaw bod gan y partïon unrhyw gytundeb gwahanol.

4. Gweithdy Trwsio: -Bydd y cwsmer yn caniatáu i Barry Bennett Ltd, yn ôl ein disgresiwn, symud y peiriant i'r gweithdy trwsio, pan fo angen yn ôl barn y peiriannydd, a dim ond i'r cyfeiriad y datgenir yn y cytundeb gwarant y bydd yr offer yn cael ei ddychwelyd.

5. Cyfrifoldeb y Cwsmer: - Cyfrifoldeb y cwsmer yw sicrhau fod yr offer a gyflenwir yn cael ei gadw mewn cyflwr glân a phriodol. Y cwsmer sy'n gyfrifol am ddiweddaru holl ddiffiniadau firws ac mae ganddo / ganddi gyfrifoldeb i sicrhau fod yr holl feddalwedd a osodir ar y system yn gydnaws â'r system a gyflenwyd.

6. Cyfyngiadau ac Eithriadau i'r Warant: -Codir tâl am yr holl drwsiadau angenrheidiol ar wahân i ddiffygion electro-fecanyddol, galwadau at beiriant pan nad oes angen gwasanaethau peiriannydd cyfrifiadurol, problemau a achosir gan y gweithredydd oherwydd camddefnyddio neu anwybodaeth, difrod damweiniol neu faleisus, ar y raddfa safonol ar yr adeg yr hysbysir y diffyg. Er y ceisiwn roi amcanbris cyn symud ymlaen gydag unrhyw drwsiadau pan godir tâl, codir pris galwad allan safonol bob amser os ymwelir â'r safle. Mae'r holl ddiffygion a achosir gan firws cyfrifiadurol yn cael eu heithrio a chodir tâl am yr holl waith a wneir ynghylch hyn ar y raddfa galw allan safonol. Codir tâl am unrhyw waith a wneir ynghylch hynny a chyflwynir amcanbris amdano.

Hawlfraint 2006 © Barry Bennett Ltd

7. Data Cwsmeriaid: -Bydd Barry Bennett Cyf yn gwneud ei orau i ysgwyddo'r goblygiadau hyn mor gyflym â phosibl, ond ni fydd yn gyfrifol am unrhyw golled, costau na threuliau'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw fanylion wrth wneud. PWYSIG ym maes defnyddio cyfrifiadur mae'n HANFODOL fod y defnyddiwr yn cadw copïau wrth gefn o'r holl ddata h.y. ar ddisg fflopi, CDROM neu getris data ayb. Wrth wasanaethu cyfrifiadur gallai fod angen mabwysiadu rhai gweithdrefnau a allai arwain at golli data; gan ddychwelyd y system i'w chyflwr cyn dosbarthu, bydd y peiriannydd yn gweithio bob amser ar y rhagdybiaeth fod y data i gyd wedi'i arbed.

8. Cyfyngiadau'r Cytundeb: -Os, oherwydd nad yw darnau sbâr neu amnewidion ar gael, neu oherwydd unrhyw achos arall y tu hwnt i reolaeth Barry Bennett Ltd, na fyddwn yn gallu ysgwyddo ein cyfrifoldebau o dan y Cytundeb hwn bydd gennym hawl i derfynu'r Cytundeb ar unwaith drwy hysbysu'r cwsmer yn ysgrifenedig o hynny a chyfyngir ar atebolrwydd Barry Bennet Ltd i ddychwelyd y gyfran o bremiwm y warant sydd heb ei ddefnyddio pro rata gan ei gyfrifo yn ôl nifer y dyddiau sy'n weddill.

9. Cyfyngiadau'r Cydrannau: - Rhannau sy'n cael eu defnyddio h.y. rhannau sydd angen eu hadnewyddu wrth ddefnyddio cynnyrch fel arfer gan gynnwys, heb gyfyngu, batris nodiaduron. Efallai na fydd cydrannau nad ydynt yn hanfodol er mwyn i'r cynnyrch weithio (e.e. colfachau, drysau, nodweddion cosmetig, fframiau) yn cael eu gwarchod o dan y cytundeb hwn.

10. Trwsiadau Awdurdodedig: -Mae'n amod o'r cytundeb hwn nad yw unrhyw drwsiad, addasiad nac uwchraddiad yn cael ei wneud gan unrhyw un neu rai heb ganiatâd Barry Bennett Ltd.

11. Trosglwyddo'r Cytundeb: -Ni fydd y Cwsmer yn aseinio'r Cytundeb hwn heb ganiatâd Barry Bennett Ltd.

12. Taliadau: -Nid yw'r prisiau a godir am y Cytundeb Gwarant ar Safle yn cynnwys cost atgyweirio mawr. Rhoddir dyfynbris am waith o'r fath a bydd y gwaith yn dechrau pan dderbynnir y dyfynbris.

13. Darparu Cyfarpar Benthyg: - Benthycir cyfarpar i'r cwsmer pan fyddwn yn penderfynu fod rhaid symud unrhyw eitemau a ddarparwyd gennym ni i'w trwsio neu i'w hamnewid. Bydd y cyfarpar a roddir o safon ddigonol fel y bydd y cwsmer yn gallu defnyddio'r holl feddalwedd a'r cyfarpar a ddarparwyd yn wreiddiol gan Barry Bennett Ltd.

Hawlfraint 2006 © Barry Bennett Ltd